# Cyngor Cymuned Glantwymyn

**Nos Iau, 29ain o Dachwedd 2018.**

**Presennol:-** Cynghorwyr:- Dafydd E Evans, Siôn Ifans, Paul Hughes, Gareth W Jones, Deryck Lewis, Gwen Lloyd, S Gareth Owen, William N Owen, Geraint Wigley, Aled Griffiths, Iwan P Jones

**Ymddiheuriadau:-** Cynghorwyr:- Gwenfair E Rhys-Davies

**18.77: Datganiadau o diddordeb.**
Dim.

**18.78: Cofnodion cyfarfod 25ain o Hydref 2018.**
78.1: Nodwyd gan Huw Williams nad oedd enw'r Cyng. Aeron Pugh ar y rhestr o gynghorwyr oedd yn bresennol. Cadarnhawyd ei fod wedi bod yn bresennol a bod angen addasu'r cofnodion i ddangos hyn.
78.2: Cynigiwyd fod y cofnodion yn gywir gan Paul Hughes ac eiliwyd gan Gareth Owen.

**18.79: Materion yn codi o'r cofnodion.**
18.71.1: Cadarnhawyd gan y Cyng. Sir Elwyn Vaughan fod yr Asiantaeth Cefnffyrdd (Trunk Road Agency) wedi cytuno i drefnu'r gwaith o glirio'r coed yng Nghwm Llinau.
18.77.1: Bont fach Llanwrin - Mynegodd y Cyng. Sir Elwyn Vaughan ei fod wedi ymweld â safle'r bont fach yn Llanwrin. Yn sgil sefyllfa ariannol y Cyngor Sir, nododd nad oedd hi'n debygol iawn y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau gan y Cyngor Sir. Roedd nifer o'r cynghorwyr yn anfodlon gyda hyn gan fod y ffordd o gwmpas y bont yn ffordd darmac ac y dylai'r cyfrifoldeb fod gyda'r Cyngor Sir. Awgrymwyd i dynnu lluniau o'r effaith y mae'r dŵr yn ei gael gan nad yw'n mynd o dan y bont gan fod gwreiddiau ayyb yn ei rwystro.

**18.80: Cyflwyno a derbyn cofnodion y cyfarfod arbennig ar y 3ydd o Hydref.**
80.1**:** Gan nad oedd copïau caled o'r cofnodion ar gael cytunwyd i ohirio hyn tan y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr.

**18.81: Sefyllfa'r awdit**
81.1: Derbyniwyd e-bost gan Grant Thornton yn holi am gyfrifon 2017/18. Eglurodd y Cadeirydd ei bod hi'n amlwg nad oedd Derek Evans o swyddfa awdit Cymru wedi siarad gyda'r aelod staff o Grant Thornton a wnaeth ddanfon yr e-bost.

**18.82: Cynllunio.**
82.1: Oherwydd sefyllfa'r cyngor heb Glerc, ni dderbyniwyd y ceisiadau cynllunio mewn da bryd i'w trafod. Nodwyd gan Sion Ifans fod yr adran gynllunio wedi cael gwybod i ddanfon eitemau cynllunio i gyfeiriad e-bost newydd y Cyngor Cymuned.
82.2: Nodwyd cais cynllunio Ochr y Rhiw, Cwmllinau. Penderfynwyd nad oedd modd rhoi barn gan nad oedd manylion llawn y cais ar gael i'r Cyngor.

**18.83: Materion ariannol ac eitemau i'w talu.**
83.1: Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r broses o dalu anfonebau gyda sieciau ar ddiwedd cyfarfod. Cynigiwyd i barhau hyn gan Aled Griffiths gyd Gareth Jones yn eilio. Nodwyd hefyd gan Aled Griffiths fod angen gosod trefniant talu gyda BACS pan fydd Clerc newydd wedi ei benodi.
83.2: Canolfan Glantwymyn - £1500: Cynigiwyd ei dalu gan Aled Griffiths ac eiliwyd gan Huw Williams.
83.3: SARPA - £8: Cytunwyd i William N Owen i gysylltu gyda SARPA i drefnu anfoneb ganddynt er mwyn gallu prosesu taliad.

83.4: G P Ward - £1400: Torri gwair mynwentydd Llanwrin a Darowen. Cynigiwyd i'w dalu gan Aled Griffiths ac eiliwyd gan Huw Williams.
83.5: Rab Jones - £1500: Taliad i'r cyn Glerc rhwng Ebrill a Medi 2018. Cynigiwyd i'w dalu gan Aled Griffiths ac eiliwyd gan Gareth Jones.
83.6: Pwyllgor y Ganolfan - £1500: **Gadawodd y cynghorwyr Paul Hughes a Gareth Jones yr ystafell gyfarfod.** Cais am arian fel cyfraniad tuag at y gost o brynu cadeiriau newydd i'r ganolfan. Cytunwyd nad oedd modd penderfynu ar hyn gan fod angen cadarnhad o sefyllfa ariannol y Cyngor.

**18.84: Clerc y Cyngor**
84.1: Yn dilyn hysbyseb yn y Cambrian News nid oedd unrhyw gais wedi dod am swydd y Clerc.
84.2: Trafodwyd enghreifftiau o sut mae Cynghorau eraill yn ymdopi heb Glerc gan rannu gwahanol gyfrifoldebau.
84.3: Cytunwyd yn unfrydol fod angen mynd trwy'r deunydd yr oedd y cyn Glerc wedi ei adael i'r Cyngor. Penderfynwyd trefnu cyfarfod lle y byddai hyn yn digwydd ar nos Iau y 6ed o Ragfyr am 7.30yh yn agored i'r holl gynghorwyr.

**18.85: Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
85.1: Nodwyd fod y Cadeirydd Dafydd Evans, erbyn hyn yn un o Lywodraethwyr Ysgol Glantwymyn.
85.2: Cyfeiriodd Aled Griffiths at arolwg diweddar y Ffederasiwn gan ESTYN.
85.3: Nodwyd gan Aled Griffiths fod y gwaith adeiladu o gwmpas Ysgol Glantwymyn wedi ei orffen ond fod rhai agweddau megis ramp anabl heb ei osod yn iawn. Yn ogystal â hynny nid ydy'r gwaith ar iard yr ysgol wedi ei gwblhau a dydy'r gwaith ar y cae chwarae heb ddechrau.
85.4: Cafwyd diweddariad gan y Cyng. Sir Elwyn Vaughan:

- Y Cyngor Sir angen gwneud arbedion o 41 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf, gyda thrafodaeth nglyn a'r posibilrwydd o godi treth Cyngor.
- Ymgynghoriad ar wastraff gwyrdd o fewn y Sir.
- Coedwig Dyfi - Cyfeiriwyd at y trafferthion gyda fandaliaeth a thresbasu yng Nghoedwig Dyfi a thiroedd amaethyddol gerllaw. Cynhaliwyd cyfarfod gydag AS Liz Saville Roberts, cynrychiolaeth o'r heddlu, undebau amaethyddol a thrigolion lleol.
- Annie's Land (Tir Heddwch, Cemaes) – Nodwyd fod y swyddog Iechyd yr Amgylchedd wedi cymeradwyo'r adroddiad safle.
- Cyfeiriodd ei fod wedi bod ynghlwm a thrafodaethau ynglŷn â phrosiect 'Rewilding' Gwylltgoed Cambrian.

**18.86: Gohebiaeth.**

**86.1:** Derbyniwyd e-bost gan Un Llais Cymru am Ddatganiad Blynyddol i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn atgoffa'r Cyngor i ddanfon datganiad i mewn. Mae angen gwneud hyn hyd yn oed os nad oes taliadau yn cael ei gwneud i Gynghorwyr am gostau a lwfansau.

**18.87: Unrhyw fater arall.**
87.1: Codwyd nifer o faterion gan Deryck Lewis. Trwnc y tu allan i Brynhyfryd, Cwmllinau sydd wedi suddo. Gwynt wedi difrodi arwydd 30mya wrth ddod i mewn i bentref Cwmllinau. Ar y llwybr cyhoeddus wrth Ger-y-nant mae coeden yn agos iawn i ddod lawr yno. Nodwyd hefyd ganddo am ddŵr sydd yn sefyll y tu allan i 4 Rhosawel ac o gwmpas 5 Rhosawel.
87.2: Holwyd gan William N Owen am ddiweddariad ar y trwnc sydd wedi suddo ger Aberffrydlan, Llanwrin. Codwyd y mater fod dŵr yn sefyll ym Mryn Berllan ger Aberffrydlan.
87.3: Cyfeiriodd Paul Hughes at y ffaith fod BT yn y broses o dynnu hen focsys teleffon i lawr. Gan fod y Cyngor wedi penderfynu mabwysiadu rhai bocsys ffôn yn yr ardal cytunwyd fod angen

cadarnhau os oedd BT wedi derbyn gwybodaeth fod hyn i ddigwydd. Cytunodd Paul Hughes i wneud ymholiadau am hyn.
87.4: Holwyd gan Iwan P Jones os oedd modd archebu halen ffordd i ardal Darowen.
87.5: Nodwyd gan Paul Hughes fod angen talu £20 i'r 'Royal British Legion' am dorch Sul y cofio. Cytunwyd i dalu hwn.
87.6: Cytunodd y Cyng. Sir Elwyn Vaughan i wneud ymholiadau am bwyntiau, 87.1, 87.2 a 87.4.

Caewyd y cyfarfod am 10.05yh

**Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Iau, 20fed o Ragfyr 2018 am 7.30yh.**